# Grant Gwella Eiddo Creu Lleoedd Cymoedd Pen-y-bont ar Ogwr

Canllawiau i ymgeiswyr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

LEVELLING UP

**Fersiwn 1.0 TERFYNOL (Mai 2023)**

## 1. Cefndir

1.1. Mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod cyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU ar gael i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPAO) i alluogi lleoedd i fuddsoddi mewn meithrin gallu a chymorth seilwaith i adfer mannau cymunedol a pherthnasoedd a chreu'r sylfeini ar gyfer datblygiad cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ar lefel y gymdogaeth.

Bydd angen i brosiectau fodloni amcanion blaenoriaeth fuddsoddi Cymunedau a Lle UKSPF. Bydd y flaenoriaeth fuddsoddi yn galluogi lleoedd i fuddsoddi er mwyn adfer eu mannau cymunedol a'u perthnasoedd a chreu'r sylfeini ar gyfer datblygiad economaidd ar lefel cymdogaeth. Bwriad hyn yw cryfhau gwead cymdeithasol cymunedau,, a meithrin balchder mewn lle.

Yr ymyriad penodol sy'n berthnasol i'r gronfa grant hon yw:- **W1: Gwelliannau i ganol trefi a strydoedd mawr**

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gyflawni yn erbyn yr allbynnau canlynol:

- Nifer yr adeiladau masnachol sy'n cael eu datblygu neu eu gwella (m2)
- Nifer y safleoedd a ailsefydlwyd (gwerth rhifiadol)
- Nifer yr adeiladau masnachol a ddatblygwyd neu a wellwyd (gwerth rhifiadol)

### 1.2 **Cynllun Corfforaethol**

**Cynllun Corfforaethol 'Cyflawni Gyda'n Gilydd' Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028.**

Mae Cynllun Corfforaethol CBSPAO ar gyfer 2023-28 yn nodi blaenoriaethau'r cyngor a sut y byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phobl leol a phartneriaid i ddarparu gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf.

Enw'r cynllun yw 'Cyflawni Gyda'n Gilydd,' ac mae wedi'i gynllunio i fod yn haws i bobl ymgysylltu ag ef.

**Bydd y gronfa hon yn bodloni Amcan Llesiant 3 y cynllun corfforaethol - Bwrdeistref Sirol lle mae cymunedau'r cymoedd yn ffynnu.**

### 1.3 Lleoliad

Bydd ceisiadau grant yn agored i berchnogion neu ddeiliaid eiddo masnachol yn y Canolfannau Ardal a'r Canolfannau Gwasanaethau Lleol yng nghymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr (ac eithrio Canol Tref Maesteg). Gweler atodiad 1 am fapiau ffiniau manwl o ardaloedd cymwys.

## 2. Cyflwyniad

2.1. Mae'r Gronfa'n cynnig cyfle i ymgeiswyr wneud cais am grant (yn amodol ar gynllunio) i –

- Trosi arwynebedd llawr gwag ar loriau uwch yn llety preswyl newydd. Ymgymryd â gwaith allanol a mewnol i wella gofod gwag uwchben blaenau siopau / adeiladau masnachol, gyda'r bwriad o gynorthwyo ymgeiswyr i ddod â'r gofod hwnnw yn ôl i ddefnydd at ddibenion preswyl. Bydd y cynllun yn cynnig y cyfle i alluogi trosi arwynebedd llawr gwag yn gartrefi newydd, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i adfywio eiddo gwag a darparu cyfleoedd defnydd cymysg i ymgeiswyr.

- Gwella eu heiddo yn gorfforol trwy gynnig y cyfle i wneud cais am grant ar gyfer blaen newydd i'r eiddo / eiddo masnachol a gwaith allanol a mewnol cysylltiedig. Bwriad y gronfa yw gwella blaen adeiladau a dod ag arwynebedd llawr masnachol gwag yn ôl i ddefnydd buddiol.

Rhaid i'r gwelliannau a wneir fod ym mherchnogaeth yr ymgeisydd neu lesddaliad yr eiddo (gyda chydsyniad y perchennog). Rhaid i brosiectau sy'n ymgorffori gwelliannau allanol i adeilad fod yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor a dylai gwaith mewnol gynorthwyo cynaladwyedd yr eiddo ochr yn ochr â chyflawni canlyniadau.

**Gwaith**

Mae'r canllawiau canlynol yn cynnwys enghreifftiau o'r math o waith y gellid ei gefnogi. Bydd swyddogion yn asesu pob cynllun fesul achos i bennu pa waith sy'n gymwys.

**Preswyl**

- Y gofyniad lleiaf ar gyfer pob prosiect yw 1 x 1 fflat hunangynhwysol gydag ystafell wely. Mae gwariant cymwys yn cynnwys gwaith sy'n cael ei ystyried i fod yn angenrheidiol i greu llety preswyl newydd.
- Dylai prosiectau gydymffurfio â'r arwynebedd llawr lleiaf sy'n cael ei argymell yn y Safonau Ansawdd Tai Cymru diweddaraf. Ar hyn o bryd, mae'r gofynion fel a ganlyn:-

  1. 46m² fesul fflat un ystafell wely
  2. 59m² fesul fflat dwy ystafell wely

- Rhaid cadw at feini prawf Rhentu Doeth Cymru.
- Dydy llety myfyrwyr, fflatiau un ystafell a fflatiau stiwdio ddim yn gymwys i dderbyn cyllid grant.

**Masnachol - Allanol**
- Blaen y siopau
- Arwyddion
- Ffenestri a drysau
- Goleuadau allanol
- Toeon a simneiau
- Nwyddau dŵr glaw (gwteri a phibellau)
- Rendro, glanhau ac atgyweirio cerrig, ail-bwyntio

- Gwaith strwythurol

**Masnachol - Mewnol**

- Ffenestri a drysau
- Hygyrchedd gwell
- Waliau, nenfydau, goleuo
- Mesurau Effeithlonrwydd Ynni sy'n cael eu cynnwys fel rhan o'r cynllun cyffredinol
- Cyfleustodau a gwasanaethau, gan gynnwys gwresogi
- Cyfleusterau lles (e.e. cyfleusterau ystafell ymolchi a glanhau hanfodol yn unig)
- Gwaith strwythurol

**Mae gwariant anghymwys yn cynnwys:**

- Costau gwaith cynnal a chadw cyffredinol
- Mathau penodol o ffitiadau a gosodiadau - rhaid i'r Cyngor benderfynu ar gymhwysedd
- Costau gwaith sy'n cael ei wneud fel gofyniad statudol
- Ffïoedd cyfreithiol a chyfrifyddu
- Taliadau arian parod a chardiau credyd i Asiantau/contractwyr
- Costau gwneud cais am ganiatâd statudol
- Gwaith sy'n cael ei wneud cyn cynnig grant (oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor yn ysgrifenedig)
- Unrhyw anfonebau wedi'u talu gydag arian parod/cardiau credyd

## 3. Y Grant

3.1. Bydd y grant ar gael ar gyfer hyd at 80% o gostau cymwys rhesymol, hyd at uchafswm o:

  - £30,000 ar gyfer eiddo a feddiannir
  - £49,999 ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei amgylchiadau penodol.

3.2. Bydd pob grant yn ôl disgresiwn y Cyngor ac yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael. Bydd swm unrhyw grant a gynigir yn cael ei asesu ar sail y prosiect unigol, gan gymryd i ystyriaeth y buddion amgylcheddol ac economaidd sy'n codi. Mae'r arian grant sydd ar gael yn gyfyngedig a chaiff ei ddyfarnu ar sail gystadleuol.

3.3. Bydd grantiau'n cael eu dyfarnu fel arfer heb gynnwys Treth ar Werth. Os nad yw'r ymgeisydd yn gallu adennill TAW, gellir derbyn hyn fel cost gymwys yn ôl disgresiwn y Cyngor, yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwymo i ad-dalu i'r Cyngor unrhyw elfen TAW a ddaw yn ôl o Gyllid a Thollau EM yn ddiweddarach o ganlyniad i newid yn statws TAW yr ymgeisydd.

3.4. Fel arfer telir y Grant ar ôl cwblhau'r holl waith yn amodol ar gyflwyno anfonebau, tystysgrifau adeiladu, tystiolaeth talu ac ati. Gellir gwneud taliadau interim yn ôl disgresiwn y Cyngor.

3.5. Bydd o leiaf 10% o gyfanswm y dyfarniad Grant yn cael ei ddal yn ôl (Cadw) nes bod y Cyngor yn fodlon bod yr holl waith wedi'i gwblhau i'r safon ofynnol, fel y datganwyd gan Syrfëwr Meintiau annibynnol, a bod y Cyngor wedi derbyn copi o’r dystysgrif cwblhau ymarferol.

3.6. Bydd angen cytuno ar unrhyw newid i waith a gymeradwywyd ymlaen llaw gyda'r Cyngor.

## 4. Ymgeiswyr cymwys

4.1. Mae modd i Rydd-ddeiliaid/Perchnogion Eiddo, Unig Fasnachwyr, Partneriaethau, Cwmnïau Cyfyngedig, Busnesau Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wneud cais yn y rhaglen.

4.2. Bydd grantiau dim ond ar gael i berchnogion eiddo rhydd-ddaliad neu i lesddeiliad ar yr eiddo ar adeg derbyn cais dilys. Yn achos lesddeiliad, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno llythyr sy'n caniatáu'r gwaith arfaethedig oddi wrth y rhydd-ddeiliad a chopi o'r cytundeb prydles.

**Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod yr holl ofynion perchnogaeth tir angenrheidiol yn eu lle i weithredu'r cynllun**

## 5. Y Broses Ymgeisio

5.1. Bydd y broses ymgeisio yn gofyn i’r ymgeisydd gyflwyno'r ddogfennaeth ategol ganlynol i gyd-fynd â'r ffurflen gais:

- Rhestr o waith, sy’n cynnwys rhestr wedi’i heitemeiddio o waith arfaethedig sydd i’w chyflwyno i bob contractwr iddynt ddyfynnu yn erbyn.
- 3 dyfynbris ysgrifenedig wedi’u heitemeiddio yn erbyn yr atodlen waith. Sicrhewch fod costau ar gyfer yr holl waith gofynnol yn dod o dan y pennawd eitem briodol, er mwyn caniatáu cymhariaeth hawdd rhwng dyfyniadau. Nodwch os gwelwch yn dda, mae hyn yn hanfodol. (Os oes angen cymorth ar ymgeisydd i baratoi atodlen waith a chael dyfynbrisiau, asiant annibynnol, fel pensaer cymwys neu syrfëwr meintiau, gellir ei ddefnyddio i gydlynu'r broses dendro. Mae ffioedd asiantau'n wariant cymwys, yn ôl disgresiwn y Cyngor. E-bostiwch regeneration@bridgend.gov.uk am fwy o wybodaeth).
- Ffotograffau diweddar o'r eiddo
- Copïau o bob caniatâd statudol perthnasol (lle bo hynny'n berthnasol)
- Copi o dystysgrif yswiriant adeilad
- Llythyr caniatâd gan y Rdydd-ddeiliad (os mai Lesddeiliad yw’r ymgeisydd)
- Copi o gytundeb prydles gan y Rhydd-ddeiliad (os mai Lesddeiliad yw’r ymgeisydd)
- Tystiolaeth o arian cyfatebol - cadarnhewch sut rydych chi'n bwriadu ariannu eich cyfraniad i'r prosiect cyfan. Dylai cadarnhad fod ar ffurf llythyr banc neu ddogfennaeth swyddogol arall (bydd angen gwaith papur gwreiddiol) fel cyfriflen.
- Adroddiad Arolwg (os yn berthnasol)

Yn dibynnu ar y math o brosiect, efallai y bydd angen y canlynol hefyd:

- Bydd angen tystiolaeth o achrediad â Rhentu Doeth Cymru ac, os yn berthnasol, Trwydded/Trwyddedau Tai Amlfeddiannaeth.
- 2 gopi o luniadau i raddfa (graddfa 1:50, o leiaf) sy'n dangos yr adeilad presennol a'r gwaith arfaethedig. (Mae'n bosibl y bydd angen lluniadau i raddfa 1:5 – 1:10 ar gyfer manylion penodol).

## 6. Contractwyr

6.1. Pan fydd gan ymgeiswyr fuddiant mewn cwmnïau sy'n dymuno tendro am y gwaith, bydd hyn yn cael ei ganiatáu, ond fe'i cyfyngir i uchafswm o un cwmni i bob prosiect.

6.2. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr prosiect, neu bobl sy'n gysylltiedig â hwy (fel perthnasau, partneriaid busnes neu ffrindiau) yn dymuno tendro am gontract sy'n cael ei gynnig gan ymgeisydd y prosiect. Er nad yw hyn yn annerbyniol, rhaid datgan perthnasoedd o'r fath, a bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau ei fod yn dal yn cynnal y trafodiad mewn modd agored a thryloyw. Rhaid i'r dyfynbrisiau/tendrau fod gan gwmnïau masnachu cofrestredig.

6.3. Cyn tendro, rhaid i ddarpar gontractwyr gynnal ymweliad safle gorfodol i ddarganfod natur y safle, mynediad ac amodau a chyfyngiadau lleol sy'n debygol o effeithio ar weithrediad y gwaith.

6.4. Rhaid i gontractwyr brisio pob eitem ar y dyfynbris.

6.5. Bydd yn ofynnol i bob contractwr gyflwyno copi o'u Hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus cyfredol.

6.6. Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw rheoli contractwyr oni chytunir yn ysgrifenedig gan y Cyngor.

## 7. Caffael

.

7.1. Wrth gaffael nwyddau neu wasanaethau, dylai ymgeiswyr anelu at gael gwerth am arian wrth gynnig cyfle i ystod o fusnesau ddarparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau hynny mewn modd teg a thryloyw. Felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y gweithdrefnau caffael canlynol yn cael eu mabwysiadu yn unol ag amcangyfrif o uchafswm gwerth y contract adeg cael dyfynbris trwy sicrhau rhai gwahanol.

| Gwerth Amcangyfrifiedig | Dyfynbris sy'n ofynnol |
|---|---|
| £0 i £5000 | 2 ddyfynbris |
| £5001 i £49,999 | 3 dyfynbris |

7.2. Bydd y dyfynbris isaf yn cael ei ffafrio fel rhan o gymeradwyo grant. Mewn achosion pan nad oes modd i'r contractwr â'r tendr isaf ymgymryd â'r gwaith, mae modd ystyried y contractwr nesaf. Bydd rhaid dangos tystiolaeth i brofi nad oes modd i'r contractwr isaf gynnal y gwaith e.e. llythyr gan y contractwr yn cadarnhau nad oes modd iddo wneud y gwaith o fewn yr amserlen berthnasol.

7.3. Bydd amcanbrisiau a thendrau yn cael eu hasesu'n allanol gan Syrfëwr Meintiau annibynnol wedi'i benodi gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn pennu cyfanswm y grant a fydd yn cael ei gynnig i bob prosiect, a bydd hyn yn amodol ar adroddiad y Syrfëwr Meintiau ynglŷn â chostau rhesymol ar gyfer gwaith sy'n gymwys i gael cymorth grant.

## 8. Allbynnau

8.1. Dylai ymgeiswyr nodi y bydd disgwyl i brosiectau gyflawni yn erbyn yr allbynnau canlynol:

| | |
|---|---|
| Ymyriad | W1: Cyllid ar gyfer gwelliannau i ganol trefi a strydoedd mawr, gan gynnwys hygyrchedd gwell ar gyfer pobl anabl, yn cynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg. |
| Allbwn | Cyfanswm yr adeiladau masnachol sy'n cael eu datblygu neu eu gwella (m2) |
| Diffiniad | Cyfanswm metrau sgwâr yr arwynebedd llawr masnachol newydd sydd wedi'i gwblhau neu ei wella. Mae gofod masnachol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: gofod manwerthu, lletygarwch, swyddfa a diwydiannol.<br>- Mae gofod manwerthu yn golygu lleoliad sefydlog ar gyfer arddangos neu fanwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: archfarchnadoedd, siopau sy'n gwerthu dillad, electroneg, dodrefn, llyfrau, ac ati.<br>- Mae gofod lletygarwch yn golygu gofod sydd â'i brif ddiben ar gyfer llety neu wasanaeth bwyd. Mae enghreifftiau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: bwytai, caffis, tafarndai, bariau, arlwyo, gwestai, meysydd gwersylla a llety arall.<br>- Mae gofod swyddfa yn golygu lleoliad sefydlog lle mae'r prif weithgareddau yn ymwneud â gwasanaethau ariannol, gwasanaethau proffesiynol (ac eithrio gwasanaethau iechyd neu feddygol), neu unrhyw wasanaethau priodol eraill mewn ardal fasnachol, busnes neu wasanaeth. |

| | |
|---|---|
| | - Mae gofod diwydiannol yn golygu gofod a ddefnyddir ar gyfer prosesau diwydiannol, storio neu ddosbarthu.<br>- Mae gofod masnachol arall yn golygu mannau nad ydynt yn gyhoeddus neu gymunedol nad ydynt yn perthyn i'r categorïau uchod.<br>- Mae wedi cwblhau yn golygu bod y cyfleusterau wedi'u cwblhau'n gorfforol a bod y gofod yn barod i'w feddiannu ar unwaith. Mae adeilad wedi'i gwblhau unwaith y bydd ar y rhestr ardrethu annomestig.<br>- Mae gwella yn golygu ychwanegu, adnewyddu neu atgyweirio cyfleusterau gyda'r nod o greu gofod gwell. Nid yw'n cynnwys cynnal a chadw cyfleusterau presennol. |
| Gofynion tystiolaeth | Data prosiect a fydd yn dangos cyfanswm y metrau sgwâr o ofod masnachol wedi'i gwblhau neu ei wella<br><br>• Tystysgrif cwblhau ymarferol y gwaith e.e. Ardystiad QS o'r gwaith a wnaed<br>• Ffotograffau cyn ac ar ôl cwblhau'r cynllun |

| | |
|---|---|
| Ymyriad | W1:  Cyllid ar gyfer gwelliannau i ganol trefi a strydoedd mawr, gan gynnwys hygyrchedd gwell ar gyfer pobl anabl, yn cynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg. |
| Allbwn | Cyfanswm yr eiddo wedi'u hadsefydlu (gwerth rhifiadol) |
| Diffiniad | Cyfanswm yr eiddo wedi'u hadsefydlu.<br>- Mae eiddo yn golygu adeilad yn ogystal â'r tir ac adeiladau allanol sydd wedi'u difrodi gan ddatblygiad diwydiannol neu ddatblygiad arall ac nad oes modd eu defnyddio heb gynnal gwaith yn gyntaf.<br>- Mae adsefydlu yn golygu trwsio fel bod modd eu defnyddio. |
| Gofynion tystiolaeth | Data prosiect a fydd yn dangos nifer yr eiddo wedi’u hadsefydlu<br><br>• Tystysgrif o gwblhau'r gwaith ymarferol. e.e. Ardystiad QS o’r gwaith sydd wedi'i wneud.<br>• Ffotograffau cyn ac ar ôl cwblhau'r cynllun |

| | |
|---|---|
| Ymyriad | W1:  Cyllid ar gyfer gwelliannau i ganol trefi a strydoedd mawr, gan gynnwys hygyrchedd gwell ar gyfer pobl anabl, yn cynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg. |
| Allbwn | Cyfanswm yr adeiladau masnachol sydd wedi'u datblygu neu eu gwella (gwerth rhifiadol) |
| Diffiniad | Cyfanswm yr adeiladau masnachol newydd sydd wedi’u datblygu neu gwella  Mae adeiladau masnachol yn cynnwys ond ddim wedi'u cyfyngu i: adeiladau manwerthu, lletygarwch, swyddfa a diwydiannol.<br>- Mae adeilad manwerthu yn golygu lleoliad sefydlog ar gyfer arddangos neu fanwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mae enghreifftiau’n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: archfarchnadoedd, siopau sy’n gwerthu dillad, electroneg, dodrefn, llyfrau, ac ati. |

| | |
|---|---|
| | - Mae adeilad lletygarwch yn golygu gofod sydd â'i brif ddiben ar gyfer llety neu wasanaeth bwyd. Mae enghreifftiau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: bwytai, caffis, tafarndai, bariau, arlwyo, gwestai, meysydd gwersylla a llety arall.<br>- Mae adeilad swyddfa yn golygu lleoliad sefydlog lle mae'r prif weithgareddau yn ymwneud â gwasanaethau ariannol, gwasanaethau proffesiynol (ac eithrio gwasanaethau iechyd neu feddygol), neu unrhyw wasanaethau priodol eraill mewn ardal fasnachol, busnes neu wasanaeth.<br>- Mae adeilad diwydiannol yn golygu gofod a ddefnyddir ar gyfer prosesau diwydiannol, storio neu ddosbarthu.<br>- Mae adeiladau masnachol eraill yn golygu mannau nad ydynt yn gyhoeddus neu gymunedol nad ydynt yn perthyn i'r categorïau uchod.<br>- Mae wedi cwblhau yn golygu bod y cyfleusterau wedi'u cwblhau'n gorfforol a bod y gofod yn barod i'w feddiannu ar unwaith. Mae adeilad wedi'i gwblhau unwaith y bydd ar y rhestr ardrethu annomestig.<br>- Mae gwella yn golygu ychwanegu, adnewyddu neu atgyweirio cyfleusterau gyda'r nod o greu gofod gwell. Nid yw'n cynnwys cynnal a chadw cyfleusterau presennol. |
| Gofynion tystiolaeth | Data prosiect a fydd yn dangos cyfanswm yr adeiladau masnachol sydd wedi'u cwblhau neu eu gwella -<br><br>• Tystysgrif o gwblhau'r gwaith ymarferol. e.e. Ardystiad QS o’r gwaith sydd wedi'i wneud.<br>• Ffotograffau cyn ac ar ôl cwblhau'r cynllun |

8.2. Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gyflawni'r allbynnau sydd wedi'u nodi ar y ffurflen gais. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod tystiolaeth i gefnogi unrhyw allbynnau ar gael i'r Cyngor, hyd yn oed os yw'r eiddo'n cael ei brydlesu i drydydd parti.

## 9. Gofynion a disgwyliadau statudol

9.1. Dylai ceisiadau ddarparu cadarnhad o unrhyw gydsyniad neu ganiatâd gofynnol, megis Caniatâd Cynllunio, Rheoliadau Adeiladu, Newid Defnydd, SAB/SUDS neu ganiatâd Adeiladau Rhestredig. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am geisio pob caniatâd priodol sydd ei angen i gyflawni'r prosiect ac am sicrhau bod yr holl waith yn cydymffurfio.

9.2. Disgwylir i ymgeiswyr beidio â bod mewn ôl-ddyledion gyda thaliadau nac mewn anghydfod â'r Cyngor adeg cymeradwyo’r grant ac adeg talu'r prosiect.

9.3. Bydd angen i'r holl waith gydymffurfio â'r arweiniad sydd yn y llythyr amserlen a Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor.

9.4. Bydd eiddo neu eiddo rhestredig mewn Ardal Gadwraeth yn ddarostyngedig i amodau pellach yn unol â chyngor y Cyngor.

9.5. Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod ei fusnes a'i adeilad yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol o ran iechyd amgylcheddol, safonau masnach a diogelu defnyddwyr ac nad

oes hanes o ddiffyg cydymffurfio neu euogfarnau yn gysylltiedig â'r busnesau presennol neu gyn-fusnesau dan ei weithrediad.

**10. Y Broses gwneud Penderfyniadau**

10.1. .Bydd Swyddogion y Cyngor yn cynnal asesiad o'r cais gorffenedig a'r ddogfennaeth ategol lawn. Yn ystod y broses hon gellir gofyn am wybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr.

10.2. Anfonir llythyr cynnig grant i ymgeiswyr llwyddiannus ynghyd â thelerau ac amodau perthnasol.

10.3. Anfonir llythyr o hysbysiad i ymgeiswyr aflwyddiannus.

**11. Yswiriant**

11.1. Am gyfnod o bum mlynedd ar ôl dyddiad dyfarnu'r grant, rhaid i'r ymgeisydd fod ag yswiriant cynhwysfawr ar gyfer yr eiddo gyda chwmni yswiriant dibynadwy ac, os gofynnir am hynny, rhaid iddo ddarparu tystiolaeth o'r yswiriant hwnnw i'r Cyngor.

**12. Rheoli Cymorthdaliadau**

12.1. Dyfernir y Grant hwn o dan Reolau Rheoli Cymorthdaliadau y DU. O dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, cymhorthdal yw pan fo awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth i fenter sy'n rhoi mantais economaidd iddynt, sy'n golygu na ellid bod wedi cael cymorth cyfatebol ar delerau masnachol. Gall fod ar ffurf grant, manteision treth, benthyciad, gwarant neu fuddsoddiad ecwiti ar delerau ffafriol, neu ddefnyddio cyfleusterau islaw pris y farchnad, ymhlith mathau eraill o gymorth.

12.2. Bydd y Cyngor yn asesu ceisiadau grant i benderfynu ar unrhyw oblygiadau posibl o ran Rheoli Cymorthdaliadau. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei amgylchiadau penodol. Rhaid i bob ymgeisydd hefyd ystyried sut y byddant yn cyflawni yn unol â rheolau rheoli cymorthdaliadau a gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y tybir ei bod yn ofynnol. Mae rhagor o wybodaeth am y Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau ar gael o dan ganllawiau Llywodraeth y DU (https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime)

12.3. Lle bydd y Cyngor yn penderfynu na ellir dyfarnu grant yn unol â Chyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau y DU, ystyrir bod y cais yn anghymwys a bydd eich cais yn cael ei wrthod.

12.4. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i fynnu ad-daliad o unrhyw arian grant y canfyddir, wedi ei ddyfarnu, ei fod yn mynd yn groes i Reolau Rheoli Cymorthdaliadau.

**13. Talu grantiau**

13.1. Ni thelir y grant nes bod yr holl waith wedi'i gwblhau i foddhad y Cyngor ac yn amodol ar y canlynol:

I. Cyflwyno'r anfoneb wreiddiol/anfonebau gwreiddiol
II. Cyflwyno cyfriflen banc sy'n dangos tystiolaeth o dalu'r anfoneb/anfonebau.
III. Gwiriad refeniw boddhaol (cadarnhad nad yw'r ymgeisydd mewn ôl-ddyled i'r Cyngor).

IV. Cadarnhad y cydymffurfiwyd â'r holl gydsyniadau statudol angenrheidiol sy'n ymwneud ag Iechyd yr Amgylchedd a/neu ddiogelu'r cyhoedd (os yw'n berthnasol).

V. Cadarnhad y cydymffurfiwyd â phob caniatâd statudol angenrheidiol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i *Ganiatâd Cynllunio, SAB/SUDS. Rheoliadau Adeiladu, Newid Defnydd, neu Ganiatâd Adeiladau Rhestredig.*

VI. Cadarnhad gan Syrfëwr Meintiau annibynnol (wedi ei benodi gan y Cyngor) fod y gwaith wedi cael ei gyflawni yn foddhaol.

VII. Os bydd y Syrfëwr Meintiau annibynnol o'r farn bod y gwaith yn annerbyniol, bydd rhaid i'r ymgeisydd unioni'r gwaith, ar ei gost ei hun. Mae'n bosibl bydd raid i'r ymgeisydd dalu am ailasesu'r gwaith gan Syrfëwr Meintiau hefyd. Os na chaiff y gwaith ei unioni i safon foddhaol, mae'n bosibl y caiff y gwaith ei unioni gan y Cyngor a bydd yn atal rhan o'r Grant, neu'r cyfan ohono.

VIII. Darparu Tystysgrifau Interim/Terfynol.

13.2. Ystyrir taliadau dros dro yn ôl disgresiwn y Cyngor.

13.3. **Ni fydd** anfonebau sy’n cael eu talu trwy gerdyn credyd/hurbrynu/cytundebau credyd estynedig/prydlesi cyllid/gwrth-anfonebau a phryniannau arian parod yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant; Rhaid i daliadau fod ar ffurf Taliadau System Glirio Awtomataidd y Banciau (BACS), taliadau cyflymach, system glirio ar gyfer taliadau awtomataidd (CHAPS) neu siec.

## 14. Cyhoeddusrwydd

14.1. Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i roi cyhoeddusrwydd i unrhyw brosiect a gefnogir.

## 15. Monitro

15.1. Caniateir i swyddogion y Cyngor gael mynediad llawn i'r eiddo er mwyn iddynt werthuso effeithiolrwydd y cymorth grant a gwirio’i fod yn cydymffurfio â'i delerau a'i amodau. Cysylltir â'r ymgeisydd maes o law er mwyn trefnu ymweliad monitro. Bydd cynrychiolwyr o'r Cyngor yn ymweld â'r cynllun y rhoddwyd cymorth grant iddo i fonitro cynnydd y gwaith. Wedi hynny, trefnir yr ymweliadau hyn bob 6 mis nes bod yr holl amodau ac allbynnau wedi'u cyrraedd a'u dangos.

## 16. Telerau ac amodau

16.1. Darperir copi o'r telerau ac amodau ar gyfer y Grant gyda'r cynnig grant ffurfiol.

## 17. Y Gymraeg

17.1. Ni fydd ceisiadau yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau yn Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## 18. Cyflwyno ceisiadau

18.1. Dylid anfon ceisiadau i'r cyfeiriad canlynol:-
Regeneration@bridgend.gov.uk


| | Tref | Statws |
|---|---|---|
| 1 | Gogledd Bettws | Canolfan Gwasanaethau Lleol |
| 2 | De Bettws | Canolfan Gwasanaethau Lleol |
| 3 | Caerau | Canolfan Gwasanaethau Lleol |
| 4 | Cwm Ogwr | Canolfan Ardal |
| 5 | Pontycymer | Canolfan Ardal |
| 6 | Nantymoel | Canolfan Gwasanaethau Lleol |
| 7 | Blaengarw | Canolfan Gwasanaethau Lleol |
| 8 | Melin Ifan Ddu | Canolfan Gwasanaethau Lleol |
| 9 | Pontrhydycyff | Canolfan Gwasanaethau Lleol |

Atodiad 1 – Ardaloedd Cymwys


Bydd y grant ar gael i berchnogion neu ddeiliaid eiddo masnachol yn y Canolfannau Ardal a Gwasanaethau yng nghymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr (ac eithrio Canol Tref Maesteg).

Diffinnir Canolfannau Ardal a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol yng Nghynllun Datblygu Lleol CBSPAO (2013) o dan Bolisi Strategol SP10 sy'n nodi hierarchaeth manwerthu a masnachol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.


Mae’r Canolfannau Ardal a’r Canolfannau Gwasanaethau Lleol cymwys yn cynnwys:





Bettws North Commercial Centre
1:1000
Time of Plot: 14:36
Date of Plot: 23/06/2022
Plot generated byNicola Lewis
Department BCBC Regeneration
Mark Shephard
Chief Executive
Play Area
CLOS CELYN
LLWYNCELYN
WAUNGRON
THE CROFT



Bettws South Commercial Centre
1:1250
Time of Plot: 14:32
Date of Plot: 23/06/2022
Plot generated byNicola Lewis
Department BCBC Regeneration
Mark Shephard
Chief Executive
WEST VIEW
HEOL PERSONDY
HEOL BRADFORD
Maesglas
El Sub Sta
Shelters
Clinic
Police
Houses
Bettws Life
Centre
(Hall)
Post
House
LB
Carreg-y-Lliw
Tylwyth Teg
Rectory


2.


Caerau Commercial Centre
1:2500
Time of Plot: 14:52
Date of Plot: 23/06/2022
Plot generated by:Nicola Lewis
Department BCBC Regeneration
Mark Shephard
Chief Executive



Ogmore Vale Commercial Centre
1:7071
Time of Plot: 11:34
Date of Plot: 23/06/2022
Plot generated by:Nicola Lewis
Department BCBC Regeneration
Mark Shephard
Chief Executive



PONTYCYMER
Pontycymer Commercial Centre
1:3536
Time of Plot: 21:13
Date of Plot: 22/06/2022
Plot generated by:Nicola Lewis
Department BCBC Regeneration
Mark Shephard
Chief Executive
BRIDGEND
Pen-y-bont ar Ogwr


Nantymoel Commercial Centre
1:2500
Time of Plot: 11:45
Date of Plot: 23/06/2022
Plot generated by:Nicola Lewis
Department BCBC Regeneration Team
Mark Shephard
Chief Executive
Price Town
Rugby Pitch
BRIDGEND
Pen-y-bont ar Ogwr




Fersiwn 1.0 TERFYNOL (Mai 2023)


Blackmill
Retail Boundary
Scale: 1: 1,250
Date: 09/05/2023
Janine Nightingale
Corporate Director -Communities
Communities Directorate
Bridgend County Borough Council,
Civic Offices,
Angel Street,
Bridgend,
CF31 4WB
©Crown Copyright and database right 2021. Ordnance Survey 100023405. Use of this data is subject to terms and conditions.
©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2021 Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100023405. Mae defnydd o'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.
Aerial Imagery: Cities Revealed aerial photography copyright The GeoInformation Group 2011. Copyright Getmapping plc.
Countryside Council for Wales, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100018813.
Forestry Commission, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100025498.


Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council
Pont Rhyd-y-Cyff
Retail Boundary
Scale: 1: 1,250
N
W
E
S
Date: 09/05/2023
Janine Nightingale
Corporate Director -Communities
Communities Directorate
Bridgend County Borough Council,
Civic Offices,
Angel Street,
Bridgend,
CF31 4WB
©Crown Copyright and database right 2021. Ordnance Survey 100023405. Use of this data is subject to terms and conditions.
©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2021 Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100023405. Mae defnydd o'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.
Aerial Imagery: Cities Revealed aerial photography copyright The GeoInformation Group 2011. Copyright Getmapping plc.
Countryside Council for Wales, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100018813.
Forestry Commission, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100025498.